"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

GOLYGYDD—
Y PARCH. J. D. JONES, B.A., B.D., TREBANOS.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

Cyfrol XLVI.
1946

LLANDYSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER.

CYNNWYS

Adolygiadau—
Deg o'r gloch, 45.
Welsh Unitarians as Schoolmasters, 42.
Anffaeledigrwydd y Beibl, 97.
Ar daith, 167.
A'r gwanwyn a ddaeth—a'r haf, 33.

Barddoniaeth—
Bardd newydd, Y, 160.
Coffa Sarnicol, 13.
Dan Davies, L.T.S.C., y diweddar, 96.
Pe bawn yr hyn nad ydwyf, 20.
Pwy sydd i'w feio—ai Duw ynteu dyn, 127.
Beth a ddaw ohonynt? 19.
Blwyddyn newydd, 1.
Bowen, Ben—gweledydd a phroffwyd, 129.

Channing fel uwchfeirniad, 81.
Cwestiwn mawr yr oesoedd, 65.
Cwn ar gyfeiliorn, 69.
Cyfeillgarwch Duw, 170.
Cynghrair y gwragedd, 62, 140, 174.
Cynhadledd Llanmadoc, 41.
Cymanfa Ganu Morgannwg, 110.
Cyrddau blynyddol y Gymdeithas, 138.
Cyrddau'r hydref, 171.
Cyrddau'r Pasg, 94.

Dalen arall o lyfr fy mhrofiad, 49.
Daniel Ddu o Geredigion, 37.
Deuwch ac ymresymwn, 134.
Diwrnod o goleg, 104.

Emynwyr Ceredigion, 73, 83.
Emynwyr cyntaf yr Undodiaid yng Nghymru, 99.
Esperanteg a'i dyfeisydd, 118.

Fy Hoff Emyn, 180.

Ffyrdd a ffydd, 61.

Garreg wen, Y, 17.
Gobaith yr oes—ei dynion ieuainc, 113.
Gohebiaethau—
Cywiro gwall, 144.
Emynau'r gymanfa, 45.
Rhifynnau coll, 95.
Goleuni, 67.
Gymanfa ganu, Y, 121.

Hen glybiau Llandysul, 51.
Hen lyfr ar hanes y Pab, 87.

Llythyr agored, 57.

Martineau, Dr.—ein dyled iddo, 25.
Marwgofion, 14, 30, 46, 63, 79, 95, 111, 122, 141, 158, 174, 186.
Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth, Y, 24, 39, 55, 71, 106, 120, 166, 178.

Nodion cyffredin, 35.
Nodion y lladmerydd, 27.
Nodion yr eglwysi, 15, 31, 47, 64, 80, 94, 96, 112, 126, 144, 159, 175, 188.

Oes atomig, Yr, 108.
Owen Robert,—yr Utopiad ymarferol, 145.

Pennod o'r hen amseroedd, 116.
Penry, John,—y Cymro gwladgarol, 91.
Priodasau, 14, 30, 79, 95, 111, 140, 157, 174.

Rathbone, Eleanor, 93.
Rhyddid barn, 131.

Sarnicol, 3, 7.
Storiau—
Pwff-pwff a twt-twt, 154.
Siw a miw, 88.

Tad a mam, 161.
Terfyn y rhyfel, 21, 60.
Tolstoy, 164.
Tôn goffa—cystadleuaeth, 176.

Undodwr, 177.

Ymarfer Synnwyr Cyffredin, 183.
Yng ngwinllan Duw, 147.
Yr Wydd, 186.
Ysgol haf yn Rhydychen, Yr, 152.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVI. IONAWR, 1946. RHIF 1.

Blwyddyn Newydd.

Gan y GOLYGYDD.

Ei beiriant ef, o grefft annirnad,
A rhuthra dyn—i dda neu ddrwg ?
Soffocles, y dramodydd Groegaidd yn y bumed ganrif cyn Crist.

DAETH dydd cyntaf y flwyddyn newydd. Pa faint o newydd-deb a ddaeth gyda hi ? Gwir fod yr Almanac yn newydd, ond ffordd hwylus dyn o fesur amser yw ei rannu'n flynyddoedd ac yn oriau. Er hynny teimlir fod rhyw newydd-deb eithriadol yn y flwyddyn 1946. Onid dyma flwyddyn gyntaf y cyfnod atomig ? Gwir bwysig i bobloedd y byd ystyried o ddifrif effaith darganfod y bom atomig ar sefyllfa cymdeithas. Rhaid cydnabod fod byd y mae ynddo ddynion sy'n feddiannol ar rym yr atom yn un tra gwahanol i'r hen fyd cynefin. Dyma rywbeth sy'n cymell deall-twriaeth newydd rhwng cenedl a chenedl, ac yn ein gorfodi i lunio trefniant newydd ym mherthynas dynion â'i gilydd. Y mae'r cenhedloedd eisoes yn fyw i'r posibiliadau.

Mewn un ffordd bydd y flwyddyn 1946 mor bwysig ag ydoedd ei rhagflaenydd mewn ffordd arall. Yn hanes y byd saif y flwyddyn 1945 allan fel y flwyddyn yr achubwyd y ddynoliaeth ynddi o'r perygl pennaf a'i bygythiodd erioed. Trechwyd y grym mwyaf ofnadwy a fu'n ceisio difa gwareiddiad. Er hynny, cyfaddefir fod mwy o ofn nag o obaith yn y byd ar ddydd Calan 1946. Ni bu rhyfel erioed a adawodd gymaint o broblemau. Y mae cyflwr Ewrop yn drist i'r eithaf—myrddiynau o ddynion nid yn unig wedi colli eu cynhaliaeth a'u cartrefi ond wedi colli hefyd bob cyswllt a'u teuluoedd a'u ffrindiau. Y maent ar goll, yng ngwir ystyr y gair, ac ychwanegir at y broblem bob dydd drwy symud cymdogaethau cyfan.

Bydd y flwyddyn 1946 yn un y gwneir ynddi benderfyniadau mawrion. Ei thasc amlycaf fydd ail-adeiladu'r byd ar y sylfaen o gyd-ddealltwriaeth rhwng gwlad a gwlad. Rhaid achub y byd o alanas a fydd yn waeth nag un a welwyd erioed. Yn y sefyllfa y mae un peth arall sydd yn newydd, ac y mae hwnnw yn achos dros obeithio'r gorau. Yn fwy byw nag erioed y mae'r ysbryd gwerinol yn enwedig yng ngorllewin Ewrop. Tuedd rhyfeloedd bob amser ydyw cynhyrchu Llywodraethau adweithiol. Dyna brofiad y gorffennol. Bellach y mae'r Mudiadau Gwrthsefyll yn mynnu eu lle yn llywodraeth y gwledydd, ac yn ysgogi'r mudiadau hyn y mae gobeithion ieuenctid. Ni welwyd ers llawer o flynyddoedd Llywodraeth mor ifanc â'r un bresennol ym Mhrydain Fawr.

Yn ddiamau problem bennaf dyn ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod atomig ydyw sylweddoli nad yw ei gynnydd moesol wedi cyd-gerdded a'i gynnydd mecanyddol. Yn y rhuthro a'r mynd par-haus perygl dyn ydyw mesur bywyd wrth symudiadau bysedd y cloc a gwario'i nerth a'i adnoddau mewn ymdrech am y diflannol. Hyn sy'n peri i gynifer o ddynion golli rheolaeth arnynt eu hunain, colli golwg ar wir ystyr eu bywyd, a straen y strygl yn peri i adeilad-waith eu bywyd fynd i bwll. Yn y rhuthro a'r mynd ni edy dyn iddo'i hun gyfle i fwrw golwg ar y pethau sy'n werth eu meddiannu. Ceidw ei lygad ar y munudau a'r eiliadau, a thrwy hynny llwythir ei galon a phryder llethol am y dydd yfory. Deil meddylwyr dylanwadol y Dwyrain na all bywyd ddal pwyslais y Gorllewinwr ar gyflymder yn yr oes fecanyddol hon. Bydd yn dda i ninnau ystyried safbwynt y Dwyreniwr sy'n gynefin ag arafwch eangderau o unigedd, a mesur ei amser wrth gylchdeithiau'r ser yn eu her-ogoniant. Daw anian y Dwyreiniwr i'r golwg yn Iesu, pan ddywed-odd, "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch gennyf i canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon, a chwi a gewch orffwysdra i'ch eneidiau : canys fy iau sydd esmwyth a'm baich sydd ysgafn."

Yn ysbrydol y mesurir bywyd. Nid rhwydd dysgu'r wers, ond o'i dysgu fe'n tywysir i wybodaeth gywir. Dyna feddyliai henfardd Israel pan gymhellodd ddyn i gyfrif y blynyddoedd er mwyn "dwyn y galon i ddoethineb." Yn ei iaith ef, ystyr doethineb ydyw cydnabod ffyrdd Duw a rhodio'n unol a'i orchmynion ef,—mewn geiriau eraill, cydnabod y presennol yn llaw'r Duw tragwyddol.

Ysbryd ydyw dyn, a ganed ef i gerdded ar lwybrau ysbrydol. Ceisied dawelwch o bryd i bryd er mwyn ymgyngori â'i enaid. Yn nhwrf "terfysglyd donnau" ei fywyd beunyddiol chwilied ddistawrwydd fel y gall wrando ar "lais y nef." Yn ei enaid y mae gallu i ddeall y cyfarwyddiadau Dwyfol. O hynny y mae enaid dyn erioed yn dwyn tystiolaeth. Pererin ysbrydol ydyw, hel ganddo ddinas barhaus yma, ond y mae megis un yn gweld o bell

oleuni Dinas Duw. Nid yw amcanion a safonau bydol yn boddhau'r enaid, oherwydd fod ganddo "freuddwyd" sy'n ei gadw yn anniddig, ac yn ei "freuddwyd" y caiff ei wir orffwysfa a'i dangnefedd.

Dinasyddion deufyd ydym. Cipiwyd awdur Llyfr Datguddiad gan fraich gadarn yr Ymerodraeth Rufeinig, a chariwyd ef yn garcharor i Ynys Patmos, lle y gweithiai yn y chwarel. Yno yr ysgrifenna lyfr, ac yn ei eiriau agoriadol dywed, "Yr oeddwn ym Mhatmos . . . yr oeddwn yn yr ysbryd . . ." "Yn yr ysbryd" yng nghanol y llafur a'r dioddefiadau ! Onid oes arnom eisiau yng nghanol y safonau metalaidd a'r amcanion bydol ryw awel a fydd yn dwyn iechyd ac adfywiad newydd, rhyw rym a fydd yn dyrchafu meddyliau dynion i diroedd uchel y weledigaeth ? Ein hangen dyfnaf ni ydyw'r ymdeimlad fod y tragwyddol yn treiddio i mewn i'r presennol. Y mae lle i ofni ein bod yn ceisio wynebu tascau ein dydd fel plant bychain yn ceisio gosod gyda'i gilydd rhyw *jig-saw puzzle*, ac y mae darnau ohono ar goll. Nid yw'n dod at ei gilydd, oherwydd fod y darnau coll yn ddarnau hanfodol—ein ffydd yn Nuw, ein ffydd yn y ddynoliaeth.

Sarnicol.

Gan y Prifathro J. Islan Jones, M.A.

Rhyw bum mlynedd a deugain yn ôl daeth Sarnicol yn enw adnabyddus iawn i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd, canys yn 1901 cymrodd ef ofal "Congl yr Awen," ac am ugain mlynedd bu'n dal cysylltiad agos a'n misolyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymddangosodd nifer fawr o ysgrifau swynol iawn o'i eiddo ef ar ei dudalennau, a chwithig i ni fu'r newydd o'i farw ychydig wythnosau yn ôl.

Ganwyd Thomas Jacob Thomas yn haf y flwyddyn 1873 : mab ydoedd i David a Mary (Deio a Mali) Thomas, Sarnicol, bwthyn gerllaw Capel Cynon. Llafurwr amaethyddol oedd ei dad, a chanddo un ferch a thri mab heblaw Thomas Jacob. Wedi i'r olaf a ennwyd ddechrau llenydda, mabwysiadodd enw ei gartref fel ei enw llenyddol, ac fel Sarnicol yr adwaenid ef yn gyffredin.

EI YRFA ADDYSGOL.

Ar ôl mynd drwy'r tymor arferol yn ysgol Elfennol Capel Cynon, aeth Sarnicol i Ysgol Ramadeg y Cei Newydd, ac wedi rhagbaratoi digonol, aeth oddiyno i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth. Graddiodd yno yn B.Sc. a B.A. (Llundain), ac ymddengys mai Gwyddor oedd ei ddewis-gangen o'r gwybodau. Wedi gadael Aberystwyth,

bu am ddwy flynedd yn athro mewn ysgol yn Southampton. Oddiyno, daeth yn ôl i Gymru yn athro yn Abertileri, a Merthyr, ac yn olaf yn bennaeth ar ysgol Mynwent y Crynwyr (Quakers Yard). Ar ôl cyfnod hir a llwyddiannus fel athro, ymneilltuodd bedair blynedd ar ddeg yn ôl i fyw yn Aberystwyth, a threulio ei hwyrddydd, yn bennaf, ym myd llên. Er nad oedd ei iechyd yn gryf bu'n weithgar a defnyddiol hyd ei farw.

EI WAITH FEL LLENOR.

Ysgrifennodd Sarnicol lawer o ryddiaith ragorol i'r YMOFYNNYDD. Yn wir, ag eithrio ei epigramau, credaf fod ei ryddiaith yn rhagori ar ei farddoniaeth. Mae'n dra thebyg iddo sgrifennu i bapurau a chylchgronau eraill, eithr ni chaniata gofod i mi enwi ond rhai o'i ysgrifau yn YR YMOFYNNYDD : "O Fynydd i Fôr" (Hydref, 1902) ; "Yn Nechrau Haf (Mehefin, 1902) ; "Moesoldeb yn ôl Socrates" (Mai 1903). Ceir cyfres o dan y pennawd "O Fôr i Deifi" (Chwefror, Mawrth, Mai, Mehefin, Awst, Tachwedd, 1905 a Ionawr, Ebrill, Mai, Gorffennaf, Medi, Hydref, Rhagfyr, 1906 a Chwefror a Mai, 1907). Cyfres ddiddorol arall yw "O Fôn i Fynwy" (Chwefror, Mawrth, Gorffennaf, Tachwedd, Rhagfyr, 1910, Chwefror, 1911, Ebrill, 1916). "Mis ar Grwydr" (Mawrth, Ebrill, Mai, 1921). "Ar Lannau Glowon" (Chwefror, 1921). "Ar y Garnedd" (Gorffennaf, 1907). "Trem ar Lydaw" (Hydref, Tachwedd, 1907). "Ar Bont Capel Cynon" (Ebrill, Mai a Mehefin, 1913)." Hiwmor mewn Llenyddiaeth Gymraeg" (Chwefror, Ebrill, Mai, Mehefin, Awst, 1918). "Darlith Abram" (Tachwedd, 1912). "Barddoniaeth Islwyn" (Ebrill, Mai, 1910). "Gair ar Grwydr" (Medi, 1913). Enillodd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd am dair ysgrif ar y testunau "Llwch," "Glaw," a "Hwyl."

Yn YR YMOFYNNYDD am Fedi, 1913, y flwyddyn yr enillodd y gadair genedlaethol, edrydd Sarnicol ychydig o hanes ei yrfa ei hun. Datgana ei ddiolch cynnes i'r Parch. J. Hathren Davies a'r Parch. Wm. James, B.A., dau olygydd YR YMOFYNNYDD am roddi cyfle iddo ddatblygu ei dalent fel llenor, pan ydoedd yn dechrau ar y gwaith. Cafodd gefnogaeth y Parch. R. J. Jones, M.A., hefyd.

Os oedd ef o dan ddyled i'r YMOFYNNYDD am agor ei dudalennau i'w ysgrifau cynnar, yn sicr yr oedd YR YMOFYNNYDD yn fwy dyledus o lawer iddo ef am ei gyfraniadau diddorol.

EI WAITH BARDDOL.

Dechreuodd elfennu mewn barddoni pan yn hogyn yn ysgol Ramadeg y Ceinewydd, am fod rhai o'i gydysgolheigion yn ymgodymu o ddifrif â'r gelfyddyd honno. Dysgodd yno reolau cynghanedd, ond yn y Coleg yn Aberystwyth nid oedd amser i farddoni, am fod ei efrydiau gwyddonol yn llanw ei ddyddiau a'i

nosweithiau hefyd. Wedi iddo raddio, ac ymryddhau o hualau'r Coleg, dadebrodd ei awen eto, a dechreuodd ysgrifennu a chystadlu mewn eisteddfodau. Dyfarnwyd ei bryddest ef yr orau yn Eisteddfod Gadeiriol Aberteifi yn 1901, ond oherwydd iddo, yn ddiarwybod, droseddu un o'r amodau, yr ail orau a gafodd y gadair.

Ymgeisiodd am y Gadair Genedlaethol yn Llundain ar y testun, "Gwlad y Bryniau," yng Ngholwyn Bay (1910) testun, "Yr Haf," yng Ngwrecsam, testun, "Y Mynydd," ac enillodd yn Abergafenni (1913) ar y testun, "Aelwyd y Cymro."

Yr oedd gan Sarnicol y gallu i feirniadu ei waith ei hun yn weddol gywir. Dywedodd am ei awdl fuddugol, "Mae ar y gwaith lawer o feflau, ond y mae fy ngorau ynddo ; ac nid yw yn debyg y gwnaf ei well byth ym maes y mesurau caethion." Awdl seml delynegol a swynol yw "Aelwyd y Cymro" yn croniclo atgofion un a oedd yn alltud o hen gartref ei febyd. Gormodiaith fuasai galw'r awdl yn un orchestol ; canys nid yw yn esgyn yn uchel iawn, nag yn plymio dyfnedroedd profiad ; ond y mae'n ddwys ac yn dyner, yn dlos a seml ei hiaith ; ac fel y dywed yr awdur, "gallai hen wraig fy mam ei deall."

Ysgrifennodd lawer o brydyddiaeth yn y mesurau rhyddion,—caneuon gan mwyaf, a rhai telynegion. Un o'i gynhyrchion bore yn y dosbarth hwn yw "Odlau Môr a Mynydd" a ymddangosodd yn 1912, a'r elw yn mynd i grofna eglwys Annibynnol fechan yn Abertileri. Yn ddiweddarach cyhoeddodd *Patrymau Gwlad*, *Chwedlau Cefn Gwlad*, a dwy gyfrol fechan o epigramau rhagorol,—*Blodau Drain Duon* a *Catiau Cwta*. Bu galw am dri argraffiad o'r olaf a ennwyd ymhen ychydig wythnosau ar ôl ei chyhoeddi ; ond yn fy marn i *Blodau Drain Duon* yw'r peth gorau, o'r math yna ar lyfr, yn yr iaith Gymraeg. Y mae epigramau Sarnicol yn emau o ddoethineb, ac o ddychan trawiadol. Temtir fi i ddyfynnu o'r *Blodau*, os caniata gofod y Golygydd :

Rhywun dwl sy'n barnu dyn
Heb weled ond ei bilyn.

Gwn am hen Gymro hynod gall
  Na feder ond un iaith ;
Ac adwaen hyddysg ŵr na all
  Siarad fawr sens mewn saith.

I brofi athronydd danfonwyd tri pheth,
Y ddannodd, a serch, a phapur y dreth.

MASNACHWR.

Mewn gair a mewn gweithred
Mae'n hynod o chwim ;
Mae'n gwybod *pris* popeth
Heb wybod *gwerth* dim.

TAFLU BAW.

Gwell i ti atal dy law,
'Does undyn na wêl yn glir
Fod y neb sy'n lluchio baw
Yn colli tir.

SET DDIWIFRAU GWR SAFIN.

Fe brynodd set ail-law am bunt
Er mwyn cael pregeth yn ei dŷ
A pheidio â mynd drwy'r glaw a'r gwynt
I'r cwrdd, fel yn y dyddiau fu ;
Heblaw, fe arbed gost i'r dyn ;
Yn ôl ei gyfraniadau llynedd
Fe dâl y set amdani ei hun
Ymhen rhyw ugain mlynedd.

Y GWAEL DAN GOCHL Y GWIR.

Amcan y llenor a'r celfyddwr coeth,
Medd rhai, yw dangos y gwirionedd noeth ;
Ond yn y farchnad, y mae'n weddol glir
Mae'r *noethni* sy'n apelio,—nid y *gwir*.

HELPU EI GILYDD.

Cysgwr—I mi mae'ch pregethau o fendith fawr,—
Maent yn help i gael cysgu ambell awr.
Pregethwr—'Rych chwithau o ddirfawr help i mi
'Dall neb arall gysgu'r un pryd a chwi.

MYND AR EI OED.

Mae Dafy'n dechrau dweud nad ydyw'r gore
A welir heddiw, fel yr hyn a fu.
Ni synnwn innau glywed unrhyw fore
Fod Dafy wedi myned yn dad-cu.

GORMOD O WYBODAETH.

Mae gorwybodusion yn ein mysg
A'u dawn wedi diffodd o dan eu dysg ;
Ffôl o beth, meddai modryb Siân,
Rhoi gormod o lo ar ychydig o dân.

Mae ei feddargraffiadau yn yr un gyfrol yn ddoniol dros ben.

Fe hoffwn i weld rhyddiaith orau Sarnicol wedi ei chyhoeddi yn llyfryn cryno ; credaf y gwerthai yn dda. Wrth gwrs, byddai peth gwaith caboli ar sillebiaeth a gramadeg ei ysgrifau cynnar, am fod safonau'r Gymraeg wedi newid cryn dipyn yn y cyfamser, yn bennaf drwy ddylanwad llyfrau ysgolheigaidd y diweddar Syr John Morris Jones.

Cyn diwedd ei oes yr oedd iechyd Sarnicol yn lled anfoddhaol, a bu farw ddydd Sul, Rhagfyr yr ail, yn ei gartref, Llywel, Laura Place, Aberystwyth. Claddwyd ei weddillion marwol ym mynwent Bwlchygroes, Llandysul, y dydd Mercher canlynol, a'r Parch. Dr. Rees Griffiths, Caerdydd yn gwasanaethu. Gadawodd weddw a dau frawd mewn galar o'i golli.

Sarnicol.

GYDA'I farwolaeth gymharol sydyn ef ar yr ail o Ragfyr, 1945, y mae bwlch a gwacter yn Aberystwyth a Ffostrasol, ac y mae Sir Aberteifi a Chymru yn llenyddol dlotach.

Daeth y llanc gwledig gwanllyd a fabwysiadodd ei enw barddonol oddi wrth y tyddyn tlawd lle y ganed ef, yn sefydliad yn ein llenyddiaeth. Yr oedd ôl a stamp y darn eithinog grugog yna o Geredigion yn drwm ar ei gymeriad a'i fywyd hyd y diwedd.

Do, fe roes y darn canol uchel yna o Deifi i'r môr ar y map. Yn aml clywir dynion dierth—dynion o bell yn siarad mewn bus ac mewn sioe—"dyma ni 'nawr yng ngwlad Sarnicol."

Yr oedd Sarnicol yn un o ddynion mawr y Sir er nad oedd yn ddyn cyhoeddus—amlwg gan bwyllgor a llwyfan ; ac yn ddiddadl, ef oedd un o'r enwocaf, onid yr enwocaf oll, o feirdd a llenorion cyfoes Ceredigion.

Addysgwyd ef yn ysgol Capel Cynon, wedyn aeth i ysgol Ramadegol y Cei Newydd. Y mae hanes y cyfnod caled hwn yn nodedig ; yn nodedig am ei aberth ei ddycnwch a'i ymroad i ddyfod yn ei flaen. Cerddai o'i gartref yn yr eithin a'r grug â'i docyn wythnos ar ei gefn, a hynny ymhell cyn dyddiau'r car a'r bus. Nid yw'n syndod ei fod wedi sôn cymaint am yr wyth milltir hir, arw yna, dros Riw'r Amwisg a Banc Blaen Gloywon ac am y Cei ; ac iddo ymhen blynyddoedd wedyn ganu cywydd byr i afon Gloywon :

"Afon Gloywon a glywaf
Yn sôn o hyd am swyn haf,—
Haf mebyd o hyfryd hedd,
A hir-felyn orfoledd."

O'r Cei Newydd aeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth ; enillodd raddau B.Sc., a B.A., yno mewn Gwyddoniaeth. Yna aeth i Southampton, a bu yno am ddwy flynedd yn darlithio a gweithio yn y Labs. Daeth yn ôl i Gymru, a bu yn Abergele am flwyddyn. Wedyn troes ei wyneb tua'r De a gwlad Islwyn ac arhosodd yn Abertileri yn hir.

Oddi yno aeth i Ferthyr lle bu'n fawr ei barch a'i ddylanwad a'i wasanaeth am flynyddoedd. Ymhen amser symudodd eto, yn awr i Fynwent y Crynwyr, i fod yn bennaeth yr ysgol ail-raddol ; ac yno y bu nes ymddiswyddodd rhyw bedair blynedd ar ddeg yn ôl. Dyna gipdrem fras ar yr ysgolion a'r lleoedd a gafodd ei wasanaeth clodwiw cyn pallu o'i iechyd a'i nerth. Diau y dywed llawer myfyriwr :

"Disgybl wyf, ef a'm dysgawdd."

Efallai mai yn yr ysgol y clywais ei enw gyntaf pan geisiwn ddysgu darnau fel, "Yr Alltud o Gymro," ac "Yn ôl i Gymru," o'i waith, allan o *Gemau Ceredigion.*

Ac yn un o'r hen YMOFYNYDDION gwelais ei lun fel golygydd y farddoniaeth. O syllu ar y llun gwledig hwnnw taerwn, gan ei debyced, mai ei frawd, ' Dan Blaenhowel,' ydoedd !

Dyna ddechrau holi pwy ydoedd, a beth ydoedd.

Ymhen blynyddoedd ac wedi dod i'r un dref ag ef—gwelwn y bardd yn gyson. Deuthum i'w adnabod, i'w hoffi, a'i barchu ; eto yr oedd ei ' ofan ' arnaf ! a'r ofn hwnnw yn codi o barch ac edmygedd ohono.

Llawenychai yn llwyddiant pawb, a gwnâi bopeth o fewn ei allu i helpu ei gyfeillion a'i gydnabod. Gwelais ef yn gwrtais ac yn garedig. Deallai'r natur ddynol, a chas ganddo dwyll a rhagrith dynion. Dywedai ei farn yn blwmp ac yn blaen, ond ni chlywais mohono erioed yn bychanu na dyn na llyfr.

Ar wahan i'w addysg a'i ddawn, neu ei ddoniau, a'i allu meddyliol cryf—yr oedd yna rywfath o ddiwylliant arall na fedraf ei esbonio. Gwelwn ef ar y Sul yn mynd neu ddod o'r Capel. Nid oedd yn gapelwr penboeth nac yn grefyddlyd. Nid dyn anghymdeithasgar mo Sarnicol. Yr oedd yn storïwr ac yn gwmnïwr tan gamp. Siaradai â rhywun beunydd beunos, dim ots pwy fyddai gydag ef,—byddai'n siŵr o'ch gweled a'ch cyfarch trwy ddweud : *prynhawn da,* neu *nos da,* neu godi ei ffon.

Medrai ddal pen rheswm a thrin materion gyda doctoriaid, athrawon a beirdd y colegau—eto, llawn cystal ganddo gael sgwrs gyda'r dyn digoleg a'r bardd gwlad.

Nid anghofiodd ' y graig y naddwyd ef ohoni ! ' na llwybr caled garw y bore, "yn hamdden hwyr y dydd." Gwelwn ef yn gyson ar ei bererindodau ar y "prom," ar lwybr y Castell, ac ar draws y dre'.

Astudiai'r tywydd, astudiai'r gwynt, ac astudiai ei iechyd. Yr oedd yn mwynhau bod allan yn yr haul ac yn awel y môr. Chwythai'r gwynt bob amser iddo ef o Gapel Cynon, o'r Post Bach, ac o'r Cei. A phan fyddai gwynt tafod yr ych yn cyrraedd hyd y mêr ac yn eich dal yn y Stryd Fawr, soniai'n gellweirus ddigri amdano fel y gwynt o Fanc Siôn Cwilt, o Dalgarreg, neu o Byllau'r Bryn.

Fel yr oedd daear Wessex i Thomas Hardy, tebyg oedd Banc Siôn Cwilt a Rhos yr Hafod i Sarnicol. Yno yr oedd ei galon a'i gartref, yn y rhedyn ,yr eithin a'r grug. Yno yn sŵn yr hedyddion a'r grugier ; y cadno a'r cornicyll ; y giach a'r gog.

Ac yno, yn bennaf, y cafodd ei gymeriadau a'r peth byw, ffres hwnnw a geir yn ei gerddi a'i ysgrifau byrion gorau. Dywedodd rywdro : "Nid oes un llwybr ar y ddaear hon y bydd fy meddwl yn myned drosto mor aml â'r llwybr sy'n arwain o Ben Lôn Allt y Maen i Dalgarreg, o dan yr Allt. Yma y bûm yn rhodio gyda hen gyfeillion bore oes—Shemi Pwllybladur, Ianto'r Ffatri (Caregian) a Dan a Tomos Rhydwen." O bob bardd—yr oedd gan Sarnicol ei ddihangfa—anghyfanedd-dra y banc, y foel a'r rhos. Dyma gwpled ar antur allan o un o'i awdlau cynnar i ddangos ei sêl a'i gariad, a'i nwyd wlatgar :

"Brysiwn o wledydd brasach,—mae gweled
Y man y'm ganed i mi'n amgenach."

Cawn ef ar ei orau pan yw'n darlunio'r bywyd yr oedd yn gynefin gyfarwydd ag ef. Yr oedd yn ei elfen, ac yn feistr ar y gamp o ddisgrifio bywyd a chymeriadau cefn gwlad Sir Geredigion.

Yr oedd ganddo gof byw bardd, a bro ei febyd yn llawn atgofion o bob math iddo. Ni fedrai gael amgenach deunydd i'w farddoniaeth a'i ryddiaith na'i atgofion.

'Roedd Sarnicol wedi'i deall hi. Cyfaill yr adar, a'r blodau, gŵr diymhongar, a gwladwr da. Hoff ganddo bobol a bywyd y wlad. Ni soniai amdano ei hun nac am ddim o'i bethau ei hun.

Holai ei gydnabod, a phawb a ddeuai'n gyfarwydd â hynny—parthed hen arferion, hen enwau, a hen eiriau. Yr oedd enwau afonydd a nentydd, ffermydd a thyddynnau yr hen ardal yn gyforiog o fywyd a rhamant iddo ef.

Canmolai "Enwau Lleoedd" yr Athro Ifor Williams, yn fawr. Er cystal gŵr ydoedd i ddyfod o hyd i darddiad ac ystyr geiriau—eto, yr oedd rhai enwau cyfarwydd na fedrai wneud na phen na chwt ohonynt ; enwau fel Cwmdyllest, Gwarllwynoedos, a'r Mock.

Ni fyddaf ymhell o'm lle wrth ddywedyd iddo fwrw ei brentisiaeth fel llenor yn Yr Ymofynnydd, ac ynddo hefyd y tyfodd a dod yn gampwr. Edrydd yn un o'r he n rifynnau bod arno "bwyth na fedrai byth ei dalu i'r Parchedigion Hathren Davies, William James, a R. J. Jones," am sylwadau a beirniadaethau gwerthfawr, ac yn bennaf am ei wneud yr h yn ydoedd fel ysgrifennwr."

Ie, a dylanwad a chyfeillgarwch diwenwyn diwyro gwŷr fel Arthur Thomas, bechgyn athrylithgar cerddgar Rhydwen, T. G. Thomas, Ffatri Isaf, ac eraill.

Cyhoeddwyd peth wmbredd o'i ysgrifau ynddo, a bu'n Olygydd *Congl yr Awen* am flynyddoedd. Nid ysgrifennodd neb tu allan i'r enwad gymaint iddo. Rhoes i gylchgrawn *Yr Ysmotyn Du* arlliw llenyddol, ac y mae'r enwad yn drwm yn ei ddyled.

Y mae ei ysgrifau cynnar—*O Fôr i Deifi*, *Llên a Bywyd*, a *Briwsion i Gywion Llên*, a rhai eraill yn ddiddorol a godidog, a dweud y lleiaf.

Credaf ei bod yn ei fryd i gwtogi i gywiro ac i gyhoeddi rhai ohonynt. Ond daeth y Rhyfel. Y mae yma ddeunydd cyfrol ddiddorol dros ben, a byddai'n drueni eu gadael i fynd ar goll.

Credaf yn gydwybodol mai yn rhai o'r rhain ac mewn rhai ysgrifau eraill y ceir Sarnicol ar ei orau fel ysgrifennwr rhyddiaith.

Ac ymhellach, ni all beirniaid na haneswyr y dyfodol ei adnabod, ei ddeall, na'i feirniadu yn deg—heb astudio a darllen yr hen YMOFYNYDDION.

Dechreuodd ei yrfa farddonol pan yn Ysgol Ramadegol Cei Newydd. Enillodd ei wobr gyntaf am benillion i Lythyrdy newydd Talgarreg, mewn Eisteddfod a gynhelid yn stabal y Plas. Yn Southampton "y tyfodd i lawn dwf ei wladgarwch Cymreig, ofnai iddo astudio mwy o lenyddiaeth Gymraeg yno nag o *Mathematics*, *Physics* a *Chemistry*. Nid oedd yn edifar ganddo, er y buasai'n uwch ei gyflog petai wedi cadw at wyddoniaeth a gado'r awen."

Syrthiodd cadair Aberteifi i'w ran yn 1901, ond trwy ei esgeulustod yn cam ddeall y rheolau aeth y gadair a'r anrhydedd i'r ail-orau !

"Bu'n hoff o efelychu Ceiriog ac eraill trwy roddi clec cynghanedd mewn penillion rhydd." Un fantais fawr o gystadlu yn Llundain, 1909, fu cael beirniadaeth fanwl, finiog, Syr John Morris Jones. Cafodd yr awdl yn ôl wedi'i marcio drwyddi a nodiadau gramadegol yn ei britho. Ni ddychmygai bod ei Gymraeg mor sigledig, ond penderfynodd wella.

Siomedig iawn ydoedd pan yn ysgrifennu'r copi gorffenedig o awdl "Aelwyd y Cymro," erbyn Eisteddfod y Fenni, 1913. Nid oedd i fyny â'i safon. Dyma'i eiriau—"Wedi'r ymdrech i gyd—*I was thoroughly disgusted with it* !" Canodd yn syml, yn agos, a dirodres, a gallasai hen wraig ei fam ei deall. Swm a sylwedd y gân yw atgofion bore oes ar aelwyd ei dad. Daliai mai ar ôl tyfu allan o athrofa'r Eisteddfod y dylai llenor wneud ei brif waith.

Enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni, 1913, a bu'n agos i'r goron Genedlaethol fwy nag unwaith. Enillodd amryw o wobrwyon llai, o dro i dro. Bu'n beirniadu ynddi droeon. 'Roedd yn feirniad cydwybodol onest, a chanddo chwaeth ddiwylliedig, wedi meithrin y chwaeth honno trwy gystadlu, ac ymhel

â llenyddiaeth, ac astudio gweithiau llenyddol gorau Cymru a gwledydd estron.

Soniai'n aml am yr Eisteddfod honno ym Mydroilyn pan wobrwyodd Cledlyn am ei englyn adnabyddus, gwych i'r "Pren Crin." Bu raid iddo ei ddarllen allan gymaint â theirgwaith, yr oedd y dorf wedi ffoli arno. Englyn arall a ganmolai ac a wobrwyodd ym Mydroilyn oedd "Y Tramp," gan Isfoel y Cilie. Hoff ganddo awen ac englynion 'Bois y Cilie,' a châi hwyl wrth eu hadrodd i feirdd y coleg. Bu bron â gwobrwyo Isfoel yn y Genedlaethol wedi hynny am ddau gywydd digri.

Am flynyddoedd ef a olygai'r golofn farddol yn y "*Merthyr Express*," ac ysgrifennodd lawer i'r papurau lleol.

Profodd y glasgrwt a ganodd ei gwpled cyntaf i "Shams Cwm March yn ei arch," ac a "feddwodd ar ddybaco fflat y morwr," iddo dyfu fel bardd, fel llenor, ac fel crefftwr. Dywedodd beirniad adnabyddus amdano rywdro—"daw'r gynghanedd i hwn cyn hawsed ag y daw ei anadl." Gwir, a mwy gwir, nid yw ei gynghanedd yn ein tagu, ac yn anhawster i ni. Ni chlywid mohono yn uchel ei gloch ar ystryd, ac ni chyfyd ei lais yn ei gerddi. Y mae blas y wlad—y pridd a'r mawn, yn ogystal â blas coleg a llyfrgell ar ei waith! Perthynai i linach yr artistiaid. Y mae ôl sefyll, ystyried, a myfyrdod, ôl doethineb ymataliol ar ei waith. Gwyddai sut i drin yr offer—yr iaith; yr oedd ganddo glust a ffroen bardd, a meistrolaeth ar eiriau, mydr, a chynghanedd.

Symlrwydd, agosatrwydd, eglurder, a naturioldeb, dyna nodweddion amlycaf ei farddoniaeth a'i ryddiaith. Ni cheisiodd fod yn glyfar, yn giwt, yn ei gerddi, ac oherwydd hynny nid yw'n dywyll.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dewisodd yr epigram yn fwy na'r englyn a'r delyneg yn gyfrwng i'w awen. Dewisiodd ffurf anodd iawn, ond daeth yn feistr; a chydnabyddid gan feirniaid llenyddol—mai Sarnicol oedd ein prif epigramydd. Nid rhyfedd hynny—yr oedd rhywbeth yn reit fflipant, ffraeth, yn ei siarad a'i atebion yn aml. Ni ddaeth yn epigramydd mewn diwrnod, na blwyddyn. Astudiodd epigramau Lladin a Groeg, a chraffodd ar graffter y Cywyddau.

Yr oedd yn englynwr sgilgar, ac efallai mai dyna unpeth sydd i gyfrif ei fod cymaint meistr ar ffurf mor anodd. Dyma rai o'r peth bach cabol, cryno, cofiadwy hynny, y sydd mor adnabyddus bellach:

PROFFWYD A SANT.

"Yn eu harch,
Parch;
Yn eu hoes,
Croes."

TYNNU'R GWIFRAU.

"Mae tynnu dannedd weithiau'n talu'n hanswm,
Mae tynnu torf yn boddio bloeddwyr byd ;
Ond eddyf pawb, 'rôl cyfrif y cyfanswm,
Mai tynnu'r gwifrau a dâl orau i gyd."

Y RHYNGWLADWRIAETHOLWR.

"Holl bobol pellter byd a gâr
O Honolulu i Odessa ;
Mae felly heb ddim serch yn sbâr
I bobol y drws nesa'."

NID DOETH POB AMLIEITHOG.

"Gwn am hen Gymro hynod gall
Na feder ond un iaith,
Ac adwaen hyddysg ŵr na all
Siarad fawr sens mewn saith."

A dyma ddau englyn campus o'i waith. Tueddai i gredu bod yr englyn hwn i'r "Bompren" yn well na'r un a enillodd y wobr iddo ar yr un testun, yn Eisteddfod Genedlaethol, Bangor, 1931. Hwyrach ei fod wedi'i ddiwygio wedi hynny a symud y gwall cynghanedd.

Y BOMPREN.

"O baw, mae'n berygl bywyd—mynd drosti,
Mae'n drwstan dychrynllyd ;
Yr hen siglen fwsoglyd
Groca, gam, mae'n graciau i gyd."

A dyma berl o englyn addasiad o Horas i Angau :

Y GWESTAI GWELW.

(*Horas*).

"E ddaw ef yn ddi-ofyn—ar ei dro
I'r drws, rhaid ei dderbyn,
Westai gwelw, i'r plasty gwyn
Yr un fath â'r hen fwthyn."

Soniai'n aml wrth sôn am feirdd—"mae'r peth mawr yn y pen draw oedd—nid y rhif y cadeiriau na hyd y gwallt, ond faint o gerddi *arhosol*, *cofiadwy*, oedd ganddynt.

Cadwaf innau hynny mewn cof yn awr wrth geisio sôn yn fyr a bratiog am ei waith. Tybed a ydyw ei epigramau bachog, medrus, meistraidd, wedi ein swyno a'n llygad-dynnu oddi wrth rai o'i

gerddi gorau ? Cerddi fel—*Y Filltir Aur*, *Mae'r Mwsg wedi colli ei Sawr*, *Bugail y Môr*, *Dic y Pysgotwr*, *Yr Hydref*, *Ar Forfa Rhuddlan*, ac *Ar Ben y Lôn*. Dyma delynegion a cherddi campus, barddoniaeth a ddeellir ac a rydd bleser i ddyn. Y mae awen a miwsig *Ar Forfa Rhuddlan*, mae'n feistr ar fesur tri thrawiad, a cheir ynddi wir dinc yr hen fugeilgerddi, a dengys ei fod yn llinach a thraddodiad Edward Richard.

I ni a ŵyr am y cysylltiadau a'r cefndir, nyni sy'n byw ar ymylon y bencydd a'r rhos, y mae *Ar Ben y Lôn* yn gafael ac yn glynu. Telyneg seml ddiordres a'r nodyn personol yn groyw ynddi ; a'r gynghanedd sain yn bersain berffaith ymhob cwpled. Pawb yn ôl ei ffansi, ond i mi, dyma ei gerdd orau oll.

Yr oedd Sarnicol y dyn yn fwy na Sarnicol y bardd, y gwyddonydd, a'r ysgolfeistr. O adnabod y dyn deuthum i adnabod a deall y bardd a'i waith yn well. Tybiaf ei fod wedi ysgrifennu cerddi ac ysgrifau a erys yn ein llenyddiaeth. "Bugeiliaid newydd sydd ar yr hen fynyddau hyn," ac ni wyddant gymaint am Sarnicol a'i gysylltiadau â'r hen ardal.

Er yr holl newid a symud, mynd a dod, erys Banc Siôn Cwilt a Rhos yr Hafod ; a hwy fyddant arhosol golofnau coffa i "Fardd y Garreg Wen."

Heddiw gellir cymhwyso ato ef—bennill olaf ei gân i Caradoc Evans, a fu farw yr un flwyddyn ag yntau :

"Heb rith, heb rwysg, na bost a bri,
I dawel fangre neilltuedig
Y'th ddygwyd ; mawr dy lonydd di
Yng nghôl dy Geredigion wledig."

E.J.

COFFA SARNICOL.

(*Teyrnged hen gyfaill*).

BLIN, ni bu iddo, mo'i blaned,—
Y bencydd eithinog ; [bynciwr
Cafodd, fel gorau cyfoeth,
Ddysg ynddo'n briod â'i ddawn.

Rhifai ar Ros yr Hafod,—o'r banadl,
Ryw bunnoedd diderfyn ;
Beunydd, yn ôl i'r bannau
Y troes, am ei 'Filltir Aur.'

Dewis rhwng 'Blodau'r Drain Duon,'—
Pert yw ei 'Batrymau' ; [pwy all ?
Heulwen sydd ar ei 'Aelwyd'*—
Gwlith, ar ei 'Chwedlau Cefn Gwlad.'

Er tewi o'r ffraethbert awen,—er yn fud
Roi'n ei fedd y prydydd,—
Ni thau mo'r 'Catiau Cwta,'
A doeth, tra fo'n heniaith deg.

*'Yr aelwyd Gymreig.' Testun ei Awdl Genedlaethol.

CLEDLYN.

Priodasau.

TACHWEDD 24, 1945, yng Nghapel Cribyn, REES DAVIES, Y Wenallt, Cribyn a JANE KENT, Tanlan. Gweinyddwyd gan y Parch. A. J. Martin. Yr oedd y Prifathro J. Islan Jones hefyd yn bresennol.

AR Ragfyr 22, yng Nghapel y Graig, Trebanos, Artificer ALFRED GEORGE JONES, Royal Navy, Tŷ Uchaf, Ynysymond Road, Alltwen a MINA COPE HARTNELL, Ohio Stores, Trebanos, y Parchedig J. D. Jones yn gweinyddu.

AR Ragfyr 26, yn Eglwys Sant Mair, Clydach, Lieutenant D. ISLWYN THOMAS, B.A., Royal Navy, unig fab Mr. a Mrs. D. J. Thomas, The Spa, Gellionnen a MINNA LEWIS, 19, Kelvin Road, Glydach, y Parchedig T. Harries Williams yn gweinyddu.

Marwgofion.

TACHWEDD 14, bu farw Mrs. HANNAH REES, Tynewydd, Llanwnen, yn 67 mlwydd oed. Bu'n glaf ers tro. Cyn hynny buasai'n ffyddlon i'r oedfaon yng Nghapel y Groes, ac fe fydd ei lle yn wag yn y capel. Deuai yno drwy bob tywydd, ac yr oedd yn barod i gynorthwyo gyda phopeth yn perthyn i'r achos. Dangosodd hyn wrth roi tir i godi tŷ gweinidog mewn man hynod gyfleus, a gwnaeth hynny yn unol â dymuniad ei phriod, y diweddar David Rees. Gwraig ydoedd a ymdrechodd ymdrech deg. Claddwyd hi y dydd Sadwrn wedyn yng Nghapel y Groes, y Parchn. D. Evans ac A. J. Martin yn gwasanaethu.

TACHWEDD 23, 1945 bu farw DAVID T. DAVIES, ail fab Mr. Evan Davies, Derwen, Trefor St., Aberdâr yn 64 mlwydd oed. Canolig fu ei iechyd ers llawer dydd, a chafodd gystudd caled iawn wythnosau diwethaf ei fywyd. Caled ydyw colli ein hanwyliaid, ond pan welir hwynt yn dioddef poenau dirdynnol ac heb obaith am wellhad parotach ydym i ddygymod â'r golled. Cyflwynwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r teulu a'r perthynasau, ac yn enwedig felly i'w dad a'i chwaer a fu yn gweini arno gyda'r fath ffyddlondeb a thynerwch diffael. Hebryngwyd ei weddillion dydd Mercher, Tachwedd 28, i Crematorium Glyn Taf, a gorffwys y llwch ym meddrod y teulu yng Ngalltyplaca. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Jacob Dafis ac E. R. Dennis.

DYDD Mercher, Rhagfyr 12, bu farw MARY HANNAH EVANS, Neuadd, Prengwyn, Llandysul, yn 53 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion marwol y Sadwrn ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, yn y capel gan ei gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch.

D. A. Williams, a Mrs. Evans yn llywyddu wrth yr organ. Talodd Mr. Evans deyrnged uchel i gymeriad a gwasanaeth ein diweddar chwaer : "Mae'r llais melodaidd, yr *alto* pur wedi distewi yn yr Ysgol Sul ac yn y gwasanaeth ar y Sul ; mae'r gair cynnes o groeso ar yr aelwyd wedi mynd yn fud ; mae capel Pantydefaid wedi colli aelod ffyddlon. A ni a gofiwn yn awr gyda dwyster meddwl a chalon am y mab oedd mor annwyl iddi yn yr India bell ar ddydd angladd ei fam." Cydymdeimlwn yn fawr a'r priod a'r mab yn ei galar. "Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-fwy hyd ganol dydd."

Rhagfyr 28, 1945, Mrs. RACHEL JONES, Cilgwynuchaf, Llangybi, yn 84 mlwydd oed. Ychydig flynyddoedd y bu ei gwr fyw wedi iddynt briodi, ac yn Cilgwynuchaf y treuliodd hi ei hoes yn gyfan. Yr oedd ei mam yn chwaer i'r Parchedig John Davies, Galltyplaca. Yr oedd ei hunig ferch ac un wyr iddi yn byw gyda hi, a buont yn dirion iddi pan gyfyngwyd hi i'w chornel gan wendid henaint, ac yn y diwedd i'w gwely. Gweithiodd yn galed. Cymrai ofal am orchwylion y tŷ a gorchwylion y fferm, a gellir dweud iddi ymdrechu ymdrech deg, heb wastraffu nac amser na dim arall. Yr oedd yn nodedig am ei hysbryd mwyn a'i thymer dawel. Parodd hyn ei bod yn barchus iawn gan bawb o'i chydnabod. Er iddi fod yn llafurus gyda gorchwylion daearol ni adawodd i'r byd gael mwy o le yn ei meddwl nag a ddylai gael. Bu'n ffyddlon fel aelod o eglwys Rhydygwin, a hi oedd yr aelod hynaf. Er fod y pellter yn fawr ceisiai fod yno bob Sul Cymundeb, ac yno bydd ei lle yn wag. Claddwyd ym mynwent Eglwys y Plwy, Llangybi, lle y gorwedd gweddillion ei phriod. Ar ddydd ei hangladd darllenwyd yn y tŷ gan y ficer, y Parchedig W. H. Morgan, M.A., a gweddiwyd gan y Parchedig David Jones, Maesffynnon. Pregethwyd gan y Parchedig Lewis Williams, Rhydygwin. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchedig W. H. Morgan, M.A. Gadawodd fab a'i deulu, un ferch, un brawd, un chwaer, wyrion a gorwyrion, neiaint a pherthynasau eraill mewn galar.

Nodion yr Eglwysi.

"WELSH UNITARIANS AS SCHOOLMASTERS."—Bydd yn dda gan ddarllenwyr Yr Ymofynnydd gael ar ddeall fod mynd ar y llyfryn bychan, diddorol hwn. Daw ceisiadau amdano o bedwar ban Cymru a Lloegr. Byddaf yn ddiolchgar os gwna'r cyfeillion sydd wedi bod mor garedig ag ymgymeryd a'i werthu ddanfon y tâl am dano i mi cyn hir.

Llwynmarles, Llandysul. E. O. Jenkins.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd "Social" hwylus iawn yma nos Fercher, Rhagfyr 12, wedi ei pharatoi gan aelodau'r adran o Gynghrair y Gwragedd. Daeth nifer dda ynghyd : cafwyd danteithion gwaith cartref o bob math a chymdeithas ddymunol iawn a'n gilydd.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Tachwedd 28, darlithiwyd i'r Gymdeithas Ddiwylliant gan Mr. David George Williams, Ystalyfera ar "Enwau Lleoedd." Cyfyngodd y darlithydd ei faes i leoedd Cwm Tawe, a barnu wrth nifer y cwestiynau yr oedd diddordeb y gwrandawyr yn fawr, ac yr oedd sylwadau'r darlithydd yn addysgiadol. Cadeiriwyd gan Mr. Basil Hopkin, a diolchwyd i'r darlithydd gan Miss Nansi Evans a'r gweinidog.

Ar Ragfyr 6, cynhaliwyd cyngerdd dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliant. Trefnwyd y rhaglen gan y Gwaun Cae Gurwen Junior Band a'r cantorion, Beti Wyn Bowen, Danny Thomas, a Leslie Davies. Datganwyd unawd ar y cornet gan aelod o'r seindorf. Am y seindorf ifanc hon digon dweud ei bod yn dilyn llwybrau seindorf sy'n enwog drwy'r wlad. Llywyddwyd gan y Parchedig J. D. Jones, a diolchwyd i'r cwmni gan Mr. Haydn Morgan. Trefnir fod elw y cyngerdd yn mynd i Drysorfa'r Can Mil o Bunnoedd.

Ar Ragfyr 15 cynhaliwyd y Sale of Work, sydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol, dan nawdd yr adran leol o Gynghrair y Gwragedd, a bu'r fenter yn llwyddiant mawr, diolch i ddiwydrwydd y chwiorydd. Derbyniwyd yn ystod y dydd £170, ac wedi talu ychydig gostau, rhennir yr elw rhwng trysorfa gysuron y gynulleidfa a'r drysorfa at adeiladu yr eglwysi a fomiwyd. Daeth yr anrhydedd i agor yr arwerthiant i Mrs. R. Cope, Ohio Stores, Trebanos, un o aelodau ffyddlon y gynulleidfa ac un sy'n gofalu fod y cysegr yn cael anrhydedd gan ei phlant. Cyflwynwyd Mrs. Cope gan Miss A. Morgan, llywydd yr adran, a diolchwyd iddi gan Mr. John Hopkin. Estynnwyd iddi dusw hardd o flodau gan ei hwyres, Ann Cope Thomas. Ysgrifennydd yr adran yw Mrs. W. S. Jones, a'r trysorydd yw Mrs. Emlyn Thomas. Ni allai Mrs. Thomas fod yn bresennol, a llanwyd ei lle gan Mrs. S. J. Edwards. Gofalwyd am werthu'r nwyddau gan y canlynol—*Bwydydd* : Mrs. E. Phillips, Mrs. D. T. Davies, Mrs. Ogwyn Bowen, Mrs. D. G. Thomas. *Gwaith flansi* : Mrs. D. Rees, Mrs. Gwyn Davies, Mrs. D. G. Williams, Mrs. Bryn Morgan, Mrs. W. Hopkin. *Gwaith gwau a theganau* : Mrs. J. D. Jones, Mrs. G. Bowen James, Mrs. W. J. Bowen, Mrs. M. T. Davies. *Y Goeden Nadolig* : Mrs. Phil. Powell, Mrs. R. Lewis. Wrth y byrddau tê yr oedd Mrs. Geo. Harry, Mrs. Tom Jones, Mrs. John Davies, Mrs. D. H. Morgan, Miss Hannah Davies. Yn paratoi'r bwyd yr oedd Mrs. S. J. Edwards, Mrs. Arthur Williams, Miss A. Morgan, Miss M. A. Morgan. Yn gofalu am y trefniadau yr oedd y Parch. Lewis Morgan, Mr. T. H. Jones, Mr. Phil. Powell, Mr. W. J. Bowen, Mr. S. J. Edwards, Mr. A. J. Williams, Mr. W. S. Jones, Mr. D. H. Morgan, a Mr. Bryn Morgan.

CYWIRO GWALL.—"Llwynrhydowen tan gwmwl." Ysgrifenna gohebydd—"Dangoswyd yr erthygl i mi cyn ei gyrru i'r Golygydd. Mae'r cyfieithiad yn rhagorol iawn ac yn hollol ystwyth, ond yn anffodus llusgodd un gwall i mewn iddo. Ceir ef yn y pedwerydd paragraff ar dudalen 158, rhifyn Tachwedd, lle yr awgrymir i Mason Allen dalu i Mrs. Massey y swm o £5000. Fel arall yn hollol y bu. Dywedodd Mason Allen wrth gyfreithwyr Mrs. Massey ei fod yn fodlon ildio'r *case* os telid iddo £5000. Derbyniwyd y cynnig er arbed traul pellach."

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.